CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
COFNODION CYFARFOD MISOL
25.11.2010 AM 7.30PM
NEUADD YR EGLWYS
LLANBEDR PONT STEFFAN

1. CROESO AC OFFRYMU GWEDDI

Estynnwyd croeso i bawb. Offrymwyd gweddi gan y Cynghorydd Selwyn Walters.

YN BRESENNOL

Y Maer, Cynghorydd Rob Phillips (Cadeirydd);
Dirprwy-Faer Cynghorydd Robert (Hag) Harris;
Cecilia Barton; Andrew Carter; Elsie Dafis; Margaret Davies-Evans;
Greg Evans; Lynda Mason-George; Selwyn Walters; Dorothy Williams.
SCCH Ryan Jones;
Mr Michael Freeman Ceidwad Amgueddfa Ceredigion;
Y Wasg: Hannah Smith; Carl Stringer.

2. CYFLWYNIAD YNGLŶN AG ARDDANGOSFA LLYFRGELL Y DREF

Derbyniwyd cyflwyniad gan Mr Michael Freeman, Ceidwad Amgueddfa Ceredigion sy'n gyfrifol am greu'r arddangosfeydd hanesyddol, o fewn Llyfrgell y Dref. Holodd aelodau, tybed a fyddai'n bosibl i'w cyfnewid am rai newydd, yn amlach. Yn ôl Mr Freeman, byddai hyn yn dibynnu ar gymorth y gymuned a gwnaeth apêl i drigolion i chwarae ran allweddol mewn trefnu arddangosfeydd ac i gasglu artiffactau a ffotograffau o ddiddordeb i ymwelwyr a dinasyddion. Bu i'r Cyng. Selwyn Walters, Cadeirydd *Hanes Llambed,* gynnig cymorth y mudiad gwirfoddol i greu "arddangosfeydd diddorol sy'n cael eu cyfnewid yn aml". Bydd y Ceidwad Amgueddfa'n awr yn cysylltu â *Hanes Llambed*, mewn ymgais i wireddu'r cynllun.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Tref John Davies, Kistiah Ramaya, Chris Thomas, Derek Wilson a'r Cynghorydd Sirol Ivor Williams.

4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

Bu i'r SCCH Ryan Jones ddiweddaru aelodau parthed digwyddiadau.

4.1 Parc-yr-Orsedd: Y mae'r Heddlu'n wyliadwrus o'u harolygaeth o'r parc, yn enwedig ar ôl derbyn adroddiadau yn sôn am bresenoldeb gwydr yn y maes-chwarae.

4.2 Polyn wedi ei ddifrodi ar y Cwmins: Y mae'r polyn, sy'n eiddo'r Cyngor Tref yn cael ei drwsio gan Mr Alec Page. ***Penderfyniad: i ddarganfod y gost o atgyweirio'r polyn. Y mae ymholiadau'n mynd yn eu blaen gan yr Heddlu ynglŷn â'r drosedd.***

4.3 Adolygiad o'r sefyllfa parthed goleuadau stryd (ar ôl blwyddyn): Bu i'r Cyngor Tref (CT) yn ei gyfarfod Cyllidebol Ionawr 2009, ystyried yr opsiynau a gyflwynwyd gan y Cyngor Sir. Penderfynwyd yr adeg hynny i beidio â chadw goleuadau stryd penodedig ynghynn o 12 Canol Nos tan 5am ac fel canlyniad, cost ychwanegol i'r CT. Cytunwyd i asesu'r sefyllfa ar ôl blwyddyn. Gwnaeth y CT fwrw cipolwg ar y sefyllfa ar y 25ain o Dachwedd 2010. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, y mae rhai goleuadau a ddiffodwyd rhwng 12Canol Nos a 5am wedi eu hail gynnau ar gais yr heddlu ee ar Stâd Penbryn, oherwydd troseddau. Cyfarfuwyd y gost gan yr Heddlu.

Penderfyniad: i lynu wrth y penderfyniad gwreiddiol. Ni welwyd yr angen i ymgymryd ag asesiad blynyddol o hyn allan. Petai problemau'n codi cânt eu hystyried yn unigol gan y CT. Holodd y Gyng. Elsie Dafis tybed a fyddai'n bosibl i gynnau goleuadau stryd ar Fore Sadwrn a Sul yn unig (o 12 Canol Nos tan 5am). ***Penderfyniad: i gysylltu â'r CSC i ddarganfod dichonolrwydd yr awgrymiad.***

4.4 Cais am Feinciau Eistedd Cyhoeddus ar gyfer y Stryd Fawr
Gwnaeth y Cyng. John Davies ymholiadau pellach parthed lleoli mainc ar y Stryd Fawr. Soniodd am yr ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n broblem ar y Stryd a holodd pwy fyddai'n debygol o ddefnyddio'r sedd ar ôl ei gosod mewn lle. Y mae perchenogion siop/ tŷ tafarn, yn anfodlon lleoli'r fainc tu allan i'w hadeilad oherwydd yr ymddygiad gwrthgymdeithasol.
Penderfyniad: Gofynnwyd i'r Heddlu, tybed a fyddai'n bosibl iddynt ymdrin â'r ymddygiad gwrthgymdeithasol cyn clustnodi sylw pellach i'r mater ac i hysbysu'r person a gyflwynwyd y cais o'r camau a gymerir.

4.5 Cytunwyd i ddiolch i'r Heddlu am eu cymorth pan gadwyd dwy funud o osteg ar Sgwâr Harford, am 11 o'r gloch ar y 11.11.2010:Dydd y Cadoediad.

5. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL A SY'N RHAGFARNU

5.1 Bu i'r Cyng. Harris ddatgan buddaint personol pan drafodwyd y posibilrwydd o godi cyfraniad y CT ar gyfer y Cynllun Lôn Picton. (Cyf-Cofndion 7.4)

6. CADARNHAU COFNODION y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 28ain o Hydref 2010
Penderfynwyd bod cofnodion mis Hydref yn gofnod cywir. Arwyddwyd gan y Cadeirydd.

7. MATERION SY'N CODI

7.1 Sgwâr Harford:manylion pellach:Y mae'r CT wedi ceisio am gytundebau (Dyddiad cau 6ed Rhagfyr 2010). Nid yw gwelliannau'n ymwneud â'r Ffynnon a'r ardal y cerrig palmant ar hanner amfesur y Sgwâr wedi eu cynnwys o fewn y Swydd Ddisgrifiad. Cyfrifoldeb y Banc HSBC yw ardal y cerrig palmant. ***Penderfyniad: i gysylltu â Rheolwr y Banc HSBC i ofyn iddo gysylltu â'r Maer er mwyn trafod gwelliannau o bosibl i'r ardal y cerrig palmant.***
Gwaith yn ymwneud â'r Ffynnon: Y mae'r Cyng. D.Wilson wedi cysylltu â'r Saer Maen John Jones i ymgymryd â'r gwaith arbenigol o drwsio'r Ffynnon.

7.2 Cyfarfod Ymgynghorol Arweinydd a Phrif Weithredwraig CSC 16.11.2010, Neuadd Fictoria am 7.00pm: adborth**:** Cynrychiolaeth o'r Cyngor Tref yn bresennol: Cyng. Barton; Dafis; Harris; Ramaya; Y Maer a'r Clerc. Soniodd Arweinydd y CSC sef y Cyng. Keith Evans am yr herion sy'n gwynebu'r Cyngor Sir oherwydd toriadau mewn cyllid gan y Cynulliad Cenedlaethol. Y mae blaenoriaethau'r CSC a ganlyn 1. Addysg; 2. Gwasanaethau Cymdeithasol; 3. Priffyrdd; 4. Adran y Prifweithredwr, Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai; Cyllid ayyb. Bu iddo grybwyll cyfrifoldeb y CSC i gynnal obligiadau statudol ee y ddarpariaeth o ofal ar gyfer unigolion mewn cartrefi Hen Bobl; a'r angen i ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd mwy effeithiol. Mae'n debygol y byddai cwtogi i wasanaethau eraill. Soniwyd am amcanion gwella yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth. Trafodwyd y posibilrwydd o ddirprwyo swyddogaethau i'r CT ee blodau ar gyfer y dref yn ystod misoedd yr haf; cyfleusterau cyhoeddus, gyda'r bwriad o gynnig y gwasanaethau mewn dull mwy cynnil.
Parhawyd â'r ddeialog yn ymwneud â'r Ganolfan Integredig i Blant; gwella mesuriadau diogelwch ar gyfer Mountwalk a Lôn Picton, Problem Draffig Rhes Harford; newid siap y fynedfa i'r Maes Parcio'r Rookery, cynlluniau ar gyfer dyfodol Neuadd Fictoria; Gwaith Siarter- rhwng Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned & Arolwg o Drefniadau Etholiadol yng

Ngheredigion. Ar yr 28ain o Fedi 2010 penderfynodd y CSC i ymgymryd ag adolygiad o orchmynion traffig presennol sydd mewn lle dros yr holl sir.

7.2.1 Mountwalk: Yn ystod Ionawr 2011 bydd y CSC yn cyflwyno 3 set o grymachau distewi traffig ym Mountwalk a hefyd gwelliannau ar gyfer y system oleuo. Credid bod yna fygythiad i ddiogelwch cerddwyr, yn enwedig plant pan yn cerdded i ac o'r ysgol yn ystod amser pan fydd defnydd mwyaf o'r lôn. Gresynwyd y sefyllfa yn ddirfawr gan y Gyng. D.Williams; yn ei barn hi nid oedd yn bosibl i oresgyn y broblem drwy arafu cyflymder yn unig; ni ddylai cerddwyr gael eu peryglu oherwydd diffyg lle. Roedd yn allweddol i wahardd modurwyr rhag defnyddio'r lôn yn gyfangwbl yn ystod cyfnodau mwyaf prysur.
Pwysleisiwyd bod y CT wedi cael cynnig i leisio'i farn yn ystod y cyfnod ymgynghori Hydref 2009, pan dderbyniwyd cynigion y CSC i gyflwyno crymachau distewi traffig heb ychwaegu sylwadau pellach.
Adroddodd y Maer y gallai'r sefyllfa gael ei hail-asesu ar ôl dyfodiad y crymachau ac i adrodd unrhyw broblemau at sylw'r cyngor sir. Y mae trywydd arall ar gael ar gyfer cerddwyr.

7.3 Gorlenwad Traffig – Stryd y Felin: derbyniwyd llythyr o gydnabyddiaeth gan y CSC parthed yr ymholiad gan aelod o'r cyhoedd yn gofyn tybed a fyddai'n bosibl cyflwyno Gorchymyn Traffig yn Stryd y Felin yn gwahardd parcio cerbydau ar yr heol. Y mae'r cais wedi ei gynnwys ar restr o geisiadau a fydd yn derbyn sylw pan fydd adnoddau'n caniatau. Y mae'n ddilys i gyflwyno Gorchymyn Traffig o'r fath, serch hynny, gall cerbydau wedi eu parcio ar y stryd, ddistewi cyflymder traffig ac fel canlyniad byddai diddymu'r ymarfer hwn, yn cynyddu cyflymder cerbydau'r stryd drigiannol. Rhaid ymwneud ag ymgynghoriad helaeth cyn newid Gorchymyn Traffig; gellir derbyn gwrthwynebiadau ac fel canlyniad ni gyflwynir unrhyw Orchymyn.
Rhaid bod cyllid digonol ar gael ar gyfer yr Ymgynghoriad, arwyddion perthansol ac i farcio'r heol.

7.4 Cau Mynedfa - Lôn Picton
Llythyr gan GSC yn mynegi y gallant fwrw ymlaen â'r Gorchymyn Traffig Arbrofol i gau un mynedfa Lôn Picton ar ochr Stryd y Bont. Cyfnod y Gorchymyn yw 18 mis; yn ystod y 6 mis cyntaf gellir cyflwyno gwrthwynebiad. Yn ystod unrhyw amser o fewn yr 18mis gall y Gorchymyn gael ei addasu, ei waredu neu ei dderbyn. Cyfanswm y gost yw oddeutu £3,500. Holwyd tybed a fyddai'n bosibl i godi cyfraniad y CT o £1,000 I lefel yn uwch. **Penderfyniad: i gynnig £1,250.**

7.5 Arwyddion o fewn y Dref

- Arwydd ar gyfer y ffin Sir Gâr/Ceredigion: y mae'r arwydd wedi ei harddangos yn ddiweddar.
- Arwyddion Bryn-yr-Eglwys/Penbryn & Maesyderi/Gwêl-y-Creuddyn: disgwylir datblygiadau gan y CSC.

7.6 Hysbysfwrdd y Cyngor Tref: Y Cyng Wilson i beintio'r hysbysfwrdd yn ystod y dyfodol agos.

7.7 Eiddo'r Cyngor Tref. Adroddodd y Cyng Walters y gallai'r cadeiriau aros yn eu hunfan yn Swyddfa y Cofrestrydd, Llambed ar hyn o bryd.

7.8 Cyfarfod Partneriaeth Pobl Ieuainc 19.11.2010 am 9.30am Hen Neuadd Coleg Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Llanbedr PS: adroddodd y Maer fod y cyfarfod wedi bod yn fuddiol.

7.9 Cyfarfod Mynyddoedd Cambria: 9.11.2010 yn Nhregaron: Bu'r Cyng. Greg Evans yn bresennol yn ystod y Cyfarfod hwn. Mae menter Mynyddoedd Cambria yn brosiect eang ac amrywiol sy'n anelu at helpu hyrwyddo menter

wledig, gwarchod yr amgylchedd ac ychwanegu gwerth i gynhyrchion a gwasanaethau yng nghanolbarth Cymru. Caiff y fenter ei hariannu trwy gymysgedd o freindaliadau o'r defnydd o frand Mynyddoedd Cambria; grantiau gan y sector cyhoeddus ac ymddiriedolaethau; gwerthu lithograffau o ddyfrlliwiau EUB a rhoddion o'r sector preifat.

7.10 **Apêl Y Cerrig Beddau**; Presennol yn ystod y Digwyddiad Codi-Arian o'r 19eg o Dachwedd 2010 oedd y canlynol: Y Maer; Y Faeres Delyth Morgans; Cynghorwyr Tref M. Davies-Evans; C.Barton; K.Ramaya; D.Williams a'r Clerc. Codwyd swm o £145 yn ystod y noson. Bydd yr Apêl yn parhau am ychydig amser a bwriedir cyflwyno'r arian i'r Canon Aled Williams maes o law.

7.11 **Gwasanaethau Dydd Sul y Cofio 14.11.2010**: ger y Gofgolofn am 11.00am a Chapel y Coleg: i gofio'r rai hynny a fu farw'n ystod y Ddwy Rhyfel Fawr y ganrif ddiwethaf ac mewn brwydrau terfysgol ers hynny. Bu i'r Maer ganmol aelodau'r Lleng Brydeinig am eu hymdrechion yn yr hyn a ddisgrifiodd fel, "unwaith eto, diwrnod a ddangosodd grym barch i'r ymadawedig". Croes-gyf Cofnod 4.5

7.12 **Ysgol Newydd Integredig i Blant 3-19**, Llanbedr PS: Y mae'r Cynllun Peilot yn mynd yn ei flaen. Adroddodd y Cadeirydd y byddai cyfle'n cael ei gynnig i aelodau'r gymuned i gymryd rhan mewn trafodaethau'n ymwneud â'r ysgol newydd yn ystod y Flwyddyn Newydd.

7.13 **Goleuadau Nadolig ar gyfer y dref:** Bu i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ymgymryd ag ymholiadau ynglŷn â'r dulliau a fabwysiadwyd gan aelodau'r Siambr Fasnach pan yn gosod y goleuadau Nadolig mewn lle. Atebwyd yr holl gwestiynau bellach ac y mae perthynas bositif yn bodoli rhwng y Siambr Fasnach a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Hoffai aelodau'r Cyngor Tref nodi eu gwerthfawrogiad o waith aelodau'r Siambr Fasnach Llambed, sy'n rhoi o'u gwirfodd i greu Arddangosfa Flynyddol Nadolig o'r radd flaenaf.

8. GOHEBIAETH

8.1 **Cydnerthu Cymunedol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:** er gwybodaeth.

8.2 **Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn Ceredigion 2011**: i'w gwblhau gan y Cadeirydd.

8.3 **Adran Priffyrdd, Eiddo a Gwaith Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2009-10**: at ddefnydd aelodau.

8.4 **Cynllun Gweithredu Blynyddol 2011-12 Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru**: er gwybodaeth.

8.5 **Shopmobility Symudol Ceredigion CCB 2010: Penmorfa, Aberaeron 1.12.2010 am 7.00pm:** nodwyd er gwybodaeth.

8.6 **Ail-lansio Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru parthed tai fforddiadwy: Canolfan Rheidol, Aberystwyth:** er gwybodaeth.

8.7 **Cais am finiau Halen CSC** :i ofyn i'r CSC tybed a fyddai'n bosibll iddynt leoli bin ar faes parcio'r Rookery ger safle'r ysgol. Adroddwyd bod y cais am fin halen ar gyfer Stâd Penbryn wedi ei gyflawni.

8.8 **Blodau ar gyfer y dref dros fisoedd yr haf:** ebost oddi wrth Mr Paul Arnold CSC, yn mynegi, oherwydd dirwasgiad yn yr economi bydd yn ofynnol i'r cyngor sir o bosibl yn ystod y dyfodol, i ofyn i'r Cyngor Tref am gyfraniad tuag at y gost yr arddangosfeydd blodau

8.9 **Cais gan y Cyng. Greg Evans yn** gofyn os oedd *Siarter Farchand* ar gael ar gyfer Llambed a'r rheolau a'r canllawiau ar gyfer cynnal marchnad yn y dref: ***Penderfyniad: Y Cyng. S.Walters i glustnodi sylw pellach i'r mater.***

8.10 **Gwasanaethau'r Ardal: Holiadur:** *i'w gwblhau gan y Maer.*

8.11 **Penderfynwyd i gydymffurfio** â chais y Cynghorydd Sirol Ivor Williams i anfon llythyr o longyfarch i Mr Elgan Iorweth Thomas am ei wasanaeth di-dor o 40 mlynedd i'r cwmni WDLewis & Fab, Llambed.

8.12 **Gohebiaeth eraill** – nodwyd er gwybodaeth.

9. CYNLLUNIO

9.1 **CEISIADAU CYNLLUNIO CSC** (ymateb a gyflwynwyd gan y Maer/a/neu'r Dirprwy-Faer; Maer y llynedd)

9.1.1 **Parhau â'r gwaith** i gynnwys ardal y cyntedd presennol wrth gefn y llinell adeiladu â'r blaen siop alwminiwm sy'n gweddu ar yr amfesur- 10 Sgwâr Harford, Llambed. Rhif y Cais: A100594: Dyfarniad: Dim Sylwadau.

9.1.2 **Arddangos arwyddion** 17 Stryd y Bont, Llambed; Rhif y cais: A100870AV: Dyfarniad: Dim gwrthwynebiad.

9.2 **Panel Archwilio Safleoedd Datblygiad Preswyl**, tir gyferbyn â Brongest, Heol Llanfair, Llanbedr PS 26.11.2010 am 9.30am: ***enwebwyd y Cyng, Harris i fynychu'r cyfarfod.***

9.3 **CANIATÂD CYNLLUNIO GAN GSC**

9.3.1 **Cyweiriadau a** newidiadau i'r cyntedd ar y fynedfa a gosod drws y fynedfa mewn safle gwahanol: Wern Driw, Stryd Fawr, Llambed. Ymgeisydd: Mrs J Waymong. Rhif y Cais: A100743.

9.3.2 **Adeiladu estyniad i'r** bloc dylunio technoleg: Ysgol Uwchradd Llambed: Ymgeisydd: Mr D Billingsley: Rhif y Cais: A100770CD.

9.3.3 **Adeiladu estyniad,** Bryn Llys, Heol y Bryn, Llambed. Ymgeisydd Mr A Hatcher. Rhif y Cais: A100762.

9.3.4 **Llain ar gyfer holl dywydd** gan gynnwys goleuadau llif: Ysgol Uwchradd Llambed: Ymgeisydd Mr Huw Morgan. Rhif y Cais: A100762.

9.3.5 **Estyniad ar gyfer y llawr** cyntaf: addasu'r adeilad presennol i gynnwys estyniad i'r rhemp ar y fynedfa a newid agoriad y ffenest i greu drws ychwanegol ar gyfer mynedfa. Ymgeisydd: Mr J Thomas. Rhif y Cais: A100589.

9.4 **Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin: newidiadau i'r Cytundeb Cyflawni.** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno'n ffurfiol ar y newidiadau a gellir gweld copi ar wefan y Cyngor www.sirgar.gov.uk. Gellir gweld copiau hefyd yng Nghanolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor, yn y Swyddfeydd Cynllunio ac yn y Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn ystod eu horiau agor arferol. Hefyd gwybodaeth am gyhoeddiad Papurau Pwnc a Thystiolaeth Gefndir.

10. MENTER LLAMBED

10.1 **Y mae trafodaethau'n** mynd yn eu blaen parthed yr ymsuddiad yn ymwneud â'r Neuadd Fictoria.

10.2 **Cymunedau, Cynghorau a Charbon:** Cyflwyniad yn dwyn y teitl, *Beth allwn wneud os nad yw Llywodraethau'n barod i wneud?* Gan Alexis Rowell, parthed dyfodol carbon isel: Nos Iau 2ail Rhagfyr, Llew Du, Llambed.

11. CYLLID

11.1 **Cais gan y Siambr Fasnach,** Llambed yn gofyn tybed a fyddai'n bosibl i godi lefel yr yswiriant ar gyfer y goleuadau Nadolig (o £20,000 i £30,000). Bydd

yna dâl yswiriant ychwanegol o £260.18 + Treth 5% (ni ellir derbyn ad-daliad ar gyfer y fath yma o dreth), y cyfanswm newydd yw £883.87 y flwyddyn yn hytrach na £589.68 wrth gymharu â blynyddoedd cynt. ***Penderfyniad: i godi lefel yr yswiriant ar gyfer y Goleuadau Nadolig i £30,000.***

11.2 TALIADAU

Tâl ar gyfer:	**Swm £**
Eglwys San Pedr: Hirio Neuadd yr Eglwys 25.11.2010: Cyfarfod y CT	£ 22.50
Taflenni – Dydd Sul Y Cofio	£ 25.00
Plethdorch	£ 20.00
Bachgen a ganodd corn, Dydd Sul y Cofio	£ 25.00
Costau storio, gwres, golau - clerc	£ 20.00
Cyllid a Thollau EM	£ 62.99
Cyflog y Clerc Tachwedd 2010	£589.28
Glanhau'r Llochesi Bws – Archeb Barhaol	£ 20.00
Torri'r Gwair – Cae Maesyderi – Gorffennaf 2010 – Mr Emyr Jenkins Siec Rhif 001852	£250.00
Papur/ inc/ Amlenni ayyb Compass Stationery Siec 001860 £96.32 TAW £18.86	Cyfanswm £113.18

11.3 Y mae'r Archwilwyr Allanol BDO Stoy Hayward o'r farn y dylai'r 3 arwydd newydd ar fyndefeydd y dref gael eu cynnwys ar Gofrestr Asedion Sefydlog y CT: *disgwylir cyngor gan GSC.*

12. IS-BWYLLGORAU

12.1 Goleuadau Stryd

12.1.1 Bu i'r Gyng. D.Williams drafod y golau ger y gofgolofn.

12.1.2 Y mae'n bosibl i adrodd namau golau stryd yn uniongyrchol at sylw'r CSC drwy gysylltu â'r Ganolfan Alw ar 01545 572572.

12.2 Llwybrau Cerdded

12.2.1 Cynllun Llwybrau Cymunedol CSC 2011: ffurflen yn cynnwys grant 50%: at sylw'r Cyng. Carter – i'w chwblhau erbyn y 1.02.2011.

12.2.2 Soniodd y Cyng. Carter am y sticil ym Maestir ac am y gwaith a gyflawnwyd gan Gymdeithas y Cerddwyr yng nghyffiniau Pont Creuddyn.

12.3 Camerau TCC

12.3.1 Adroddiad misol Hydref 2010: bu yna 4 cais gan yr Heddlu i arsylwi ar ddeunydd digidol yn ymwneud ag ymosodiad ar yr Heddlu; difrod troseddol, cadw trefn ar y cyhoedd ac ymosodiad.

12.3.2 Fforwm CTCC ym Mhenmorfa 22ain o Dachwedd 2010 am 2pm: derbyniwyd adborth gan y Cyng. Ramaya a fynychodd y cyfarfod. Adroddwyd bod y 6 camera TCC Llambed yn weithredol i'r radd uchaf. Y mae'r Cytundeb CTCC rhwng yr Heddlu a'r CSC wedi ei gwblhau a'i lofnodi. Bydd holl Gynghorau Tref a Chymuned yn derbyn copi o'r Ddogfen. Nid oes angen darparu Adroddiadau Perfformiad CTCC, bydd Adroddiadau'n ymwneud â digwyddiadau'n ddigonol. Gofynnodd aelodau'r Fforwm, tybed a fyddai'n bosibl iddynt dderbyn Adroddiad Digwyddiadau a Chanlyniadau Erlyniadau – rhai llwyddiannus a heb fod yn llwyddiannus. Dangoswyd olrhain digwyddiadau ar y camerau ac roedd ymateb prydlon yr heddlu'n amlwg. Soniwyd am y defnydd o wirfoddolwyr a chwnstabl dros dro i fonitereiddio'r Camerau TCC- cytunodd y Fforwm mewn egwyddor â'r trefniant hwn.

12.4 Rheoli Cae Maesyderi: Cyfarfod 17.11.2010 – Cofnodion ynghlwm.

12.5 Palmantau: i adrodd at sylw'r CSC y namau canlynol:

12.5.1 Palmant yn anwastad o flaen Tŷ Banc;

12.5.2 Namau'n weladwy ar Stryd Y Cambrian;
12.5.3 Problemau ar y palmant rhwng Tlysydd Lloyd's a'r Siop *Tiggis;*
12.5.4 Perygl Baglu ar y palmant rhwng Siop Gwilym Price, Spar a'r Deintyddfa;
12.5.5 Diffygion amlwg-ar ochr y palmant ger yr heol ger Hen Neuadd yDref.

12.6 Parc-yr-Orsedd

12.6.1 E-bost gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn ag yfed alcohol "heb ei angen" yn y parc. Dywedodd y person dan sylw fod y ffens newydd, er yn hyfryd o ran ymddangosiad, yn tynnu oddi wrth y parc chwarae gan nad oes mannau tryloyw yn weladwy ar y strwythur o bren. Fel canlyniad, y mae'n ynysu'r parc oddi wrth yr heol a'r dref ac yn atal darpar ddefnyddwyr rhag ymweld â'r maes-chwarae, gan nad yw'n bosibl asesu'r sefyllfa oddi-fewn, cyn derbyn mynediad. Yn ogystal, y mae "cau-allan" y parc, oherwydd y ffens, yn annog pobl i ymgynnull yno, mewn ffyrdd "na fwriadwyd."

12.6.2 Oherwydd digwyddiadau diweddar ym Mharc-yr-Orsedd, penderfynwyd o bosibl i sefydlu Is-bwyllgor arbennig ar gyfer y parc. I drafod ymhellach yn ystod y cyfarfod nesaf oherwydd absenoldeb y Cyng. Chris Thomas sydd wedi ymwneud â chwrs Arolwg Meysydd Chwarae a sy'n arolygu'r parc yn gyson.
Asesiad Risg wedi ei gario allan ar y 12/19 a 22ain o Dachwedd 2010.

12.6.3 Adroddodd y Cyng. Thomas (cyn y Cyfarfod) y byddai'r canlynol yn derbyn sylw prydlon:
12.6.3.1 Gwaredu â'r graffiti; (Mr S.Edwardes)
12.6.3.2 Trwsio'r fainc ger y Brif Fynedfa (Mr S.Edwardes)
12.6.3.3I docio canghennau'r goeden soniwyd- yng nghofnodion cynt,
12.6.3.4 Atgyweirio'r arddangosfa Grochenwaith a chwalwyd, i'r glendid a fu.

12.6.4 Ail-glymu bin i'r llawr a chloriau newydd ar gyfer y biniau: Adroddodd y Cyng. Thomas na fyddai'n bosibl i'r CSC i ddarparu'r cloriau.

12.6.5 Asyn Pren newydd: y mae aelodau wedi ymwneud ag ymholidau ond methiant bu'r ymgais, cyn belled i ddarganfod cyflenwyr teganau pren ar gyfer yr awyr agored.

12.7 Adolygiad Blynyddol: Yr Iaith Gymraeg: Adroddodd y Maer - i ymgymryd â'r adolygiad yn ystod y dyfodol agos.

13. U.F.A.

13.1 Holodd y Cyng. G.Evans paham na gesglir gwydr bellach o fewn y bagiau tryloyw ail-gylchu. Gall gwydr i'w hail-gylchu gael ei osod yn y Banc Gwydr. Penderfyniad: i gysylltu â'r CSC i ofyn os oes cynlluniau ar y gweill i gasglu gwydr oddi ar drothwy'r drws neu unrhyw drefniadau eraill mewn lle.

13.2 Adroddodd y Gyng. Margaret Davies-Evans fod dŵr yn cronni ar Stryd San Thomas, tu allan i'r Cyfleusterau Cyhoeddus, ar ôl iddi lawio – Penderfyniad: i hysbysu'r CSC.

Daeth y Cyfarfod i ben am 10.10pm.

14. DYDDIAD CYFARFODYDD NESAF:

14.1 Te Ieuainc Mewn Ysbryd 8.12.2010

14.2 Cyfarfod o Bwyllgor Ymgynghorol Rheoli Traffig Ceredigion y CSC a'r CT: Dydd Llun 10fed Ionawr 2011 am 2pm, Neuadd Fictoria, Llambed. (Cyng Selwyn Walters)

14.3 Cyfarfod Cyllidebol 13 Ionawr 2011 am 7.30pm yng Nghapel Shiloh, Brif Neuadd;

14.4 Pwyllgor Rheoli Cae Maesyderi: Dydd Mercher 19 Ionawr am 6.30pm: Swyddfa Menter Llambed;

14.5 **CYFARFOD MISOL** 27 Ionawr 2011 am 7.30pm yn Neuadd yr Eglwys, Llambed.**----------(arwyddwyd a dyddiad)**